Dilyniant Holi ac Ateb
Diweddariad partneriaid ar y strategaeth parcio a thrafnidiaeth ar gyfer Yr Wyddfa a Dyffryn Ogwen

1. **A oes modd integreiddio/cydgysylltu trafnidiaeth gyhoeddus cyn i'r prosiect cyffredinol ddod i rym?**

    Mae gwasanaethau trafnidiaeth integredig yn elfen allweddol o'r strategaeth hirdymor hon ac rydym yn gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru i gyd-fynd â rhaglen Metro Gogledd Cymru. Mae'r amrywiadau yn nifer yr ymwelwyr drwy gydol y flwyddyn yn ei gwneud yn hynod heriol i weithredwr bysiau gynllunio amserlenni a chyflwyno llwybr-ffyrdd bysiau newydd. Fodd bynnag, mae Mott Macdonald wedi edrych ar fater cymhleth cyflawni gwelliannau i wasanaethau bysiau yn yr ardal, ac yn benodol i'r gwasanaeth Sherpa. Mae'r rhain yn cynnwys llwybrau-ffyrdd amlach gyda chysylltiadau da, brandio cyson, uwchraddio arosfannau bysiau presennol gyda gwybodaeth amser real am fysiau yn cael ei harddangos ar sgriniau rhyngweithiol, gyda'r nod o ddatblygu system gwbl integredig pan fydd adnoddau'n caniatáu.

2. **A allwn gael gwybodaeth brintiedig syml ar gyfer busnesau lletygarwch ar gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus ar draws y parc a hefyd ar gyfer cysylltiadau i orsaf reilffordd Bangor. A'r amseroedd a sut i dalu wedi'i gynnwys?**

    Mae Trafnidiaeth Cymru a Chyngor Gwynedd yn gweithio ochr yn ochr â chwmni dylunio i gynhyrchu mapiau newydd i ddangos cysylltiadau trafnidiaeth ar draws y Parc Cenedlaethol, a gwybodaeth berthnasol arall. Yn amodol ar gyllid, rydym yn gobeithio bod mewn sefyllfa i gyhoeddi printiau o'r dyluniad newydd ymhen ychydig wythnosau.

3. **A allwch amlinellu pa randdeiliaid yr ydych wedi siarad yn uniongyrchol â hwy, ac a oes rhai y gwyddoch y mae angen ichi eu cyrraedd o hyd?**

    Ar gyfer materion yn ymwneud â thrafnidiaeth gyhoeddus, rydym wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd â Chynghorau Gwynedd a Chonwy a thimau amrywiol o fewn Trafnidiaeth Cymru (gan gynnwys y tîm bysiau, taliadau a thocynnau, cyfathrebu, a thîm Metro Gogledd Cymru) ac eraill megis tîm Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Rheilffyrdd Ffestiniog ac Ucheldir Cymru. Mae'r gwaith hwn yn adeiladu ar yr ymgynghoriadau cyhoeddus cychwynnol a gynhaliwyd ym mis Mawrth-Ebrill 2021.

    O ran Teithio Llesol a Beicio a Cherdded, rydym wedi cysylltu â nifer o randdeiliaid dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys Cynghorau Gwynedd a Chonwy, y Parc Cenedlaethol, Trafnidiaeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Sustrans, Llywodraeth Cymru ac ACGChC, yn ogystal â nifer o siopau beiciau

lleol a busnes llogi beiciau. Byddwn yn parhau i gysylltu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth i ni symud ymlaen drwy'r prosiect hwn

4. **A oes cynlluniau i uwchraddio a chysylltu llwybrau trwy Fwlch Llanberis i helpu cerddwyr i beidio â cherdded ar y ffordd oan fyddant yn dewis peidio â defnyddio'r bws? Rwy'n ymwybodol bod uwchraddio llwybrau yn ddadleuol.**

   Dyma un o'r rhannau mwyaf heriol o'r llwybr ar Gylchdaith Yr Wyddfa oherwydd natur y dirwedd a sensitifrwydd y tirweddau. Ar hyn o bryd rydym yn canolbwyntio ar rannau eraill o'r cylch hwn, ond mae hwn yn faes y byddwn yn ei asesu yn y dyfodol o ran gwelliannau i geisio annog cerddwyr i fynd oddi ar y ffordd, fodd bynnag bydd yr effaith ar y dirwedd yn un o'n prif ystyriaethau.

5. **"Mae popeth hyd yn hyn yn mynd i'r afael ag 'ymwelwyr' a'r economi leol. Ni chyfeirir (hyd yn hyn) at bobl sy'n byw yn yr ardal neu o fewn pellter byr i'r parc, ac sy'n defnyddio'r parc yn rheolaidd. Ai'r bwriad yw eu bod yn cael eu trin fel 'ymwelwyr' ac yn cael eu gorfodi i ddilyn yr holl brotocolau 'ymwelwyr.' Cofiwch fod y rhan fwyaf o ymwelwyr yn ymweld am gyfnod byr iawn, tra gall pobl leol ddefnyddio'r parc bron bob dydd. Os bydd raid i bobl sy'n byw'n lleol ddilyn pob protocol ymwelwyr, heb gonsesiwn o ryw fath, byddai hyn yn gosb enfawr iddyn nhw."**

   Nace yn bendant. Mae'r strategaeth yn edrych ar reoli ymwelwyr yn well trwy gynnig gwasanaethau gwell er mwyn lleihau effeithiau negyddol gormod o gerbydau ar yr amgylchedd, profiad ymwelwyr ac ar ein cymunedau. Comisiynwyd y gwaith hwn yn dilyn pryderon gan ein cymunedau a'n partneriaid ynglŷn â'r pwysau aruthrol sy'n wynebu cymunedau oherwydd y lefelau uchel o gerbydau ar adegau penodol o'r flwyddyn. Nod y strategaeth yw cynnig manteision mawr i gymunedau megis gostyngiad mewn problemau parcio, gwell gwasanaethau bws a thrwyddedau trigolion i gynnwys mynediad gostyngol i wasanaethau ac atyniadau lleol.

6. **Rydych wedi cyfeirio llawer at 'ymwelwyr' ond llawer llai at trigolion. Cyfaethogi Profiad ymwelwyr. Beth am gyfaethogi profiad trigolion? Ni fu Tim achub Mynydd Llanberis yn rhan o ymgynghoriad ac nid oes gennai cof fod yna 'swyddog' wedi cysylltu a ni. Ni chawsom felly fewnbwn i unrhyw ymchwiliad cychwynol. Beth yw eich cynlluniau ar gyfer rheoli mynediad i maes parcio Gorffwysfa Uchaf. A fyddwch yn sicrhau bod gan Timau Achub yr holl ardal ac aeldau o'r tim fynediad di rwystr a di gost i ddefnyddio neu dramwyo drwy y maes parcio. Barry Davies Cadeirydd Tim Achub Mynydd Llanberis.**

   Mae dyheadau'r cymunedau yn greiddiol i unrhyw ddatblygiad o'r gwaith hwn felly ymddiheuriadau dwysaf nad oedech chi'n rhan o'r ymgynghoriad cychwynnol. Mae gwaith y Timau Achub yn rhan allweddol o fywyd y mynydd ac

mae'n gwerthfawrogiad ni'n fawr i bob un o'r gwirfoddolwyr. Fe yrrwyd gwahoddiad i amrywiol ddigwyddiadau ymgynghori i gynrychiolwyr sefydliadau ar Bartneriaeth Yr Wyddfa gan gynnwys y timau achub, a sefydliadau amrywiol eraill yn yr ardal. Mae pob gohebiaeth a diweddariad wedi ei rannu â'r holl bartneriaeth yn dilyn yr ymgynghoriad.

Heb os nac oni bai, does dim bwriad i rwystro mynediad i'r Timau Achub wrth gyflawni eu gwaith amhrisiadwy o fewn y Parc Cenedlaethol.

7. **Sut mae niferoedd defnyddwyr fflecsi Conwy yn cymharu a'r gwasanaeth mae wedi ei ddisodli?**

   Rydym yn gweld cynnydd sylweddol rhwng y nifer oedd yn teithio ar draws y 6 gwasanaeth a ddisodlwyd â'r gwasanaeth ar alw Fflecsi, ac mae'n dal i gynyddu. Mae 1093 o bobl wedi cofrestru i ddefnyddio'r gwasanaeth gyda 300 o unigolion wedi ei ddefnyddio ym mis Ionawr, sydd fel arfer yn fis distaw o ran teithiau ar gludiant cyhoeddus. Mae'r gwasanaeth wedi tystiolaethu fod ychydig iawn o alw yn y cymunedau hynny ble oedd yn y gorffennol yn derbyn gwasanaeth rheolaidd. Hefyd, i'r gwrthwyneb, rydym yn gweld cynnydd sylweddol yn nifer o ddefnyddwyr a theithiau e.e. o Felin y Coed, Pentrefoelas, Ysbyty Ifan ac Uwchaled, pentrefi â oedd cyn Fflecsi yn derbyn dim ond dau wasanaeth bws yr wythnos.

8. **Sut mae'r seilwaith trafnidiaeth yn darparu ar gyfer perchnogion cŵn a'u cŵn?**

   Gellir cario cŵn ar fysiau yn ôl disgresiwn y gyrrwr a rhaid iddynt aros ar y llawr bob amser.

9. **A fydd y seilwaith trafnidiaeth yn darparu ar gyfer teithio 24/7 drwy gydol y flwyddyn, ar gyfer y rhai sy'n mynd i'r mynyddoedd am gyfnodau hir, ac a fydd hyn yn gweithredu mewn unrhyw dywydd, beth bynnag, i ddarparu ar gyfer dringwyr, ac ati?**

   Fel cam cyntaf, bydd bysiau'n gweithredu oriau hirach i ddiwallu anghenion ymwelwyr a phobl leol sydd am gychwyn yn gynt a / neu orffen yn hwyrach. Mater allweddol yw dibynadwyedd gwasanaethau fel y gall pobl ddibynnu ar amseroedd bysiau, yn enwedig bws olaf y dydd. Ar gyfer grwpiau sydd â gweithgareddau penodol fel teithiau addysgol neu ddringwyr mynydd, mae angen cynnal mynediad gyda bysiau mini a choetsis gyda lleoliadau parcio a chasglu priodol.

10. **Tybio na fydd data ffôn symudol yn cofnodi hunaniaeth ffonau, dim ond rhifau?**

    Mae hyn yn gywir, bydd pob un yn cydymffurfio'n llawn â GDPR.

11. **Ymddengys mai'r goblygiad oedd, pe bai un opsiwn yn unig ar gyfer llwybr cerdded/beicio aml-ddefnydd newydd, ni fyddai angen ymgynghori. Onid ydych**

**yn meddwl bod ymgynghori â grwpiau defnyddwyr a phreswylwyr yn hanfodol ar bob cam ar gyfer pob opsiwn?**

Mae hi'n ddyddiau cynnar iawn, ac rydym eisoes wedi ymgysylltu'n sylweddol â rhanddeiliaid fel y soniwyd uchod ac wedi ystyried eich adborth o'r sesiynau ymgysylltu a gynhaliwyd yn gynnar yn 2021. Wrth i opsiynau ar gyfer llwybrau fynd rhagddynt, bydd ymgysylltu pellach gan ymgynghori ar unrhyw gynigion, fel y gallwn gasglu barn pawb a sicrhau bod cymunedau lleol yn gallu bwydo'n weithredol i'r broses hon.

12. **Diddorol iawn gweld y gwahanol datblygiadau o dan y tri awdurdod gwahanol. Oes cynydd ar ran gweithio ar y cyd a dros ffiniau - i ddarparu gwasanaethau a threfniadau unedig ar gyfer Eryri?**

    Mae'r gwaith sydd wedi ei gyflawni yn enghraifft dda o waith ar y cyd traws-ffiniol er enghraifft: gwella rhwydwaith y Sherpa, y gwasanaeth bws T10 o Fangor i Gorwen, cysoni arwyddion ar draws yr ardal. Er hynny, mae'r sefyllfa bresennol (o ran diffyg buddsoddiad a chapasiti) yn golygu fod cyfyngiadau o ran symud rhai elfennau yn ei blaen. Felly, rydym yn parhau i fod mewn trafodaethau strategol gyda'r ddau Gyngor a Thrafnidiaeth Cymru ynglŷn â datblygu a gweithredu'r strategaeth yn ehangach.

13. **Beth yw'r amserlen a'r cynllun gweithredu?**

    Rydym yn ddiolchgar iawn am y gefnogaeth gan Trafnidiaeth Cymru i gyflawni rhai o'r prosiectau cychwynnol. Fodd bynnag, mae angen buddsoddiad sylweddol i gyflawni'r weledigaeth. Gyda'r buddsoddiad hwnnw, yr amserlen gyflawni ar gyfer gweithredu'r holl argymhellion yw rhwng 5-10 mlynedd.

14. **Rwy'n sylwi eich bod yn cynnwys beicio a cherdded - ond beth am farchogaeth? Mae cyflymder a nifer y cerbydau yn cynyddu gan ei gwneud yn fwy peryglus i farchogaeth ar y ffordd.**

    Diolch ichi am godi'r pwynt gwych hwn. Prif nodau'r gwaith hwn yw lleihau nifer y cerbydau yn yr ardal a chynnig gwell gwasanaethau sy'n gyfleus ac yn ddi-garbon. Wrth i ni symud ymlaen â chyflawni'r strategaeth hon, ein nod yw ymgynghori ag amrywiol grwpiau defnyddwyr gan sicrhau bod anghenion pawb sy'n mwynhau'r ardal yn cael eu hystyried yn llawn – gan gynnwys marchogion a pherchnogion.

15. **A fydd y bysiau yn cynnwys darpariaeth ar gyfer beiciau?**

    Bwriedir i fysiau gludo hyd at dri beic y tu mewn. Byddwn yn tynnu ar brofiad o fannau eraill a hefyd yn penderfynu sut y dylid dyrannu gofodau os oes galw cryf neu anghenion eraill am y gofod a ddarperir e.e. defnyddwyr cadeiriau olwyn.

16. **A fyddech cystal ag ystyried parcio rhatach/tymhorol i bobl leol.**

    Yn bendant. Un argymhelliad o'r adolygiad cychwynnol oedd datblygu trwyddedau i drigolion e.e. mynediad gostyngol i wasanaethau cyhoeddus ac atyniadau lleol. Byddwn yn ymgynghori ymhellach â thrigolion, partneriaid a busnesau ar sut y gallai hyn edrych wrth i'r gwaith ddatblygu.

17. **O ystyried mai tagfeydd, ymddygiad gwael a difrod i'r amgylchedd gwledig yw eich problemau mawr, pam yr ydych yn ystyried cynyddu neu wella atyniadau i ymwelwyr? Oni fyddai'n well dibynnu ar yr ymwelwyr hynny sy'n dod i gefn gwlad yn unig, heb gyfleusterau ychwanegol.**

    Nid yw'r strategaeth hon yn ymwneud â gwella atyniadau ymwelwyr, ond yn hytrach i reoli ymwelwyr yn fwy effeithiol trwy leihau nifer y cerbydau yn ardaloedd Yr Wyddfa a Dyffryn Ogwen. Gwneir hyn trwy gynnig dulliau eraill o deithio i drigolion ac ymwelwyr sy'n ddi-garbon, yn gyfleus ac yn apelgar. Mae'r Wyddfa yn atyniad mawr i ymwelwyr gyda dros 600,000 o ymwelwyr yn flynyddol, ac mae sicrhau bod yr amgylchedd gwerthfawr yn cael ei warchod a bod trigolion a chymunedau'n elwa o dwristiaeth mewn ffordd sy'n addas ar eu cyfer, wedi'i godi gan lawer sy'n byw yn lleol fel rhan o'r pryderon craidd.

18. **Beth yw cynllun lle? Roedd y sleid yn dweud cynllun lle ar gyfer Nant Gwynant**

    Yn dilyn heriau diweddar yn yr ardal benodol yma oherwydd y cynnydd aruthrol ym mhoblogrwydd yr ardal yn 2021, ystyriwyd bod angen cynllun pwrpasol i gyflawni'r amcanion cyffredinol a'r weledigaeth a osodwyd gan gymunedau a phartneriaid ar gyfer yr ardal.

19. **Nid oes darpariaeth ar gyfer mynyddwyr, dringwyr a chaiacwyr yn y cynigion hyn. Mae'r cynigion hyn ar gyfer twristiaid yn seiliedig ar orlwytho yn y parc oherwydd Covid. Beth fyddwch chi'n ei wneud ar gyfer defnyddiwr o ddifrif y parc?**

    Byddwn yn parhau i ymgynghori'n llawn â holl ddefnyddwyr y Parc Cenedlaethol wrth i'r gwaith hwn ddatblygu. Rhannwch unrhyw syniadau sydd gennych ar sut y gallai'r strategaeth hon ddatblygu yn unol â'ch holl anghenion hamdden â ni.

20. **A ydych wedi ystyried gwneud y parc yn rhydd o draffig, gyda chludiant wedi'i drefnu yn unig yn cael ei ganiatáu?**

    Mae Eryri yn Barc Cenedlaethol byw, lle mae bron i
    26,000 o bobl yn byw a llawer mwy yn dod i weithio. Nid ydym yn debyg i Barciau Cenedlaethol mewn rhannau eraill o'r byd sydd wedi'u cau i ffwrdd oddi

wrth bobl, ac felly nid oes giatiau na mynedfeydd penodol. Ein nod yw lleihau nifer y ceir yn ardaloedd Yr Wyddfa ac Ogwen drwy gynyddu nifer y meysydd parcio i ymwelwyr mewn lleoliadau pyrth, a gwella'r cynnig o drafnidiaeth gynaliadwy ledled yr ardal, yn unol ag anghenion y rhai sy'n byw ac yn gweithio yma yn llawn amser. Mae mwy o fanylion yma https://www.snowdonpartnership.co.uk/parcio-a-thrafnidiaeth

**21. A fydd talu am y bws yn y maes parcio yn caniatáu tocynnau henoed Cymru?**

Bydd unrhyw gynnig yn y dyfodol yn caniatáu ar gyfer pas pobl hŷn Cymru

**22. Mae bwcio ymlaen llaw a gwasanaethau amlach i'w gweld yn gwrth-ddweud ei gilydd, gyda'r olaf yn llawer mwy synhwyrol - sut ydych chi'n cydbwyso'r rhain?**

Ar hyn o bryd Pen y Pass yw'r unig faes parcio rhagarchebu sy'n eiddo i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Y llynedd, bu'r gwasanaeth bws wedi'i wella o Nant Peris a Llanberis i Ben y Pass yn hynod o ddefnyddiol am ei fod yn caniatáu i ymwelwyr rag-archebu parcio a dal y bws i Ben y Pass a oedd yn rhedeg bob 15 munud.

**23. A oes gennych unrhyw fodd o sicrhau signal ffôn symudol mewn lleoedd fel Bro Machno, fel bod y gwasanaeth fflecsi yn gallu cyfathrebu mewn gwirionedd â'r bobl sydd am ddefnyddio'r gwasanaeth?**

Nid oes rheolaeth gennym dros gysylltedd ffonau symudol ac rydym yn ymwybodol fod diffyg signal ffôn mewn rhai ardaloedd gwledig. Os nad oes signal ffôn, annogwn bobl i gysylltu gyda WiFi (os ar gael), neu fwcio siwrna drwy ffonio oddi ar y ffôn tŷ.

**24. Oes bwriad i osod Cysgodfan Bws gyda gwybodaeth fyw arno ym Methesda?**

Mae Trafnidiaeth Cymru yn gweithio gyda Chyngor Gwynedd ar opsiynau i adnewyddu lloches bws ym Methesda, yn amodol ar gyllid. Y gobaith yw y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau erbyn diwedd Haf 2022.

**25. Mae'n bosibl y bydd llawer o'r 'problemau' (ee parcio, sbwriel, trafnidiaeth gyhoeddus) sydd wedi codi yn yr adolygiad gwreiddiol a'r ymgynghoriad yn cael eu datrys yn well drwy weithio gyda mentrau cymdeithasol trydydd sector yn hytrach na llywodraeth leol neu fusnesau preifat. Byddai hyn yn golygu dull dychmygus o ddod o hyd i atebion. A yw APCE/Cynghorau Sir yn gweld hwn fel cyfle dichonadwy, a pha rwystrau sydd rhag symud ymlaen?**

Mae Partneriaeth Yr Wyddfa bob amser yn chwilio am ffyrdd arloesol a newydd o weithio. Os oes gennych unrhyw syniadau am unrhyw fentrau trydydd sector y gallem weithio gyda nhw, rhowch wybod i ni.

26. **Er y gallai'r adolygiad ehangach a'r ymgynghoriad arwain at well mynediad i'r Parc i bobl ifanc, ychydig iawn o gyfeiriadau penodol at eu hanghenion. Yng ngoleuni'r pandemig a'i effeithiau, a allem weithio'n galetach i gynyddu gwerth a hygyrchedd y cynnig i bobl ifanc?**

    Diolch i chi am godi'r pwynt pwysig hwn – yn bendant mae angen gwella'r ymgynghori â phobl ifanc yn y rhanbarth a byddwn yn ymdrechu i wneud hynny.

27. **Mae'n amlwg mai niferoedd yr ymwelwyr sy'n anghynaliadwy ac nid yr isadeiledd. Rhaid derbyn yn onest mai ardaloedd cymharol fach yn diriogaethol ydi ardaloedd yr Wyddfa ac Ogwen, a bod pen draw i'r niferoedd o ymwelwyr y gellir eu derbyn heb effeithiau niweidiol. Mae'n sefyll i reswm fod angen pennu'r pwynt gorlawn, sef y lefel gormodedd. Hybu gor-dwristiaeth fyddai datblygu'r isadeiledd ymhellach, gan gynnwys cynyddu'r lleoedd parcio presennol a chreu meysydd parcio newydd, oherwydd byddai hynny'n hyrwyddo cynnydd yn y niferoedd ac yn dwysau'r broblem yn hytrach na'i liniaru. Ni fyddai creu 'potiau mêl' newydd chwaith ond yn cychwyn prosesau a fyddai'n arwain at effeithiau niweidiol ar rannau eraill o Eryri. Onid gwarchod yr amgylchedd naturiol a gwarchod cymeriad y cymunedau ddylai fod yn brif swyddogaethau Parc Cenedlaethol Eryri, gan deilwra twristiaeth yn unol â hynny? Wedi'r cyfan, amgylchedd naturiol cymunedau Eryri ydi'r dirwedd o fewn terfynau'r Parc.**

    Rydym yn cydnabod fod ardal Yr Wyddfa ac Ogwen yn dioddef o dan bwysau eithriadol ar adegau penodol o'r flwyddyn yn sgil niferoedd anghynaladwy o ymwelwyr. Mae hynny yn un o'r prif resymau i Bartneriaeth Yr Wyddfa gomisiynu adroddiad lawn yn y lle cyntaf. Nodwyd yn yr adroddiad fod angen rheolaeth well ar barcio a thrafnidiaeth yn yr ardal er mwyn sicrhau fod y Parc yn cyflawni ei ddyletswydd i warchod yr amgylchedd a'r cymunedau lleol. Nid yw'r strategaeth hon wedi ei dylunio i ddenu mwy o ymwelwr, ond yn cynnig model twristiaeth gynaliadwy i fynd i'r afael a'r her, gan reoli sut mae ymwelwyr yn defnyddio'r ardal yn well. Mae gan y Parc Cenedlaethol ddau brif bwrpas statudol sef:

    1. Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol.
    2. Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol.

28. **Yn y prosiect ymchwil i ddefnyddwyr ffonau symudol ym Metws-y-Coed, sut y cawsoch yr ystadegau ar oedrannau'r bobl? A oeddent yn cydsynio'n benodol i hyn? A yw'r ymosodiad posibl hwn ar breifatrwydd yn gyfreithlon yng Nghymru?**

Roedd y data a gasglwyd o'r pwynt mynediad presennol ac o ble casglwyd y data grŵp oedran a rennir yn y weminar wrth i ddefnyddiwr ffôn symudol fewngofnodi i wifi Conwy am Ddim trwy lenwi'r ffurflen ar-lein.

29. **Capventis" – rhywbeth na wnaethom ei ddeall yn llwyr yn ystod y cyflwyniadau. A ellir darparu mwy o wybodaeth am beth bynnag yw hwn?**

    Dyma sgôp cychwynnol o sut y gellir dod â data yn yr ardal ynghyd mewn un lle a'i rannu â'r rhai sy'n teithio i'r ardal a thrwyddi er mwyn annog penderfyniadau callach. Mae hyn yn cynnwys 'data amser real' er enghraifft ar gapasiti lleoedd, beth sydd ar gael yn lleol, beth arall allai fod ar agor ar adegau penodol, beth yw rhagolygon y tywydd ac ati. Y nod yw cael mewnbwn gan fusnesau a sefydliadau lleol i annog siop un-stop i gael gwybodaeth. Rydym yn gobeithio y bydd cynllun peilot o hyn yn cael ei brofi yr haf hwn.

30. **Sylw ar y gwasanaeth bws Sherpa hollbwysig: Trafodwyd llawer yn ystod y cyfarfod am bwysigrwydd gwasanaeth bws da gyda gwybodaeth ddibynadwy a gasglwyd yn hawdd i'r cyhoedd. Gan fod eisiau'r gwasanaeth ar Ddydd Calan 2022 (dydd Sadwrn) aethom ati i geisio darganfod yr amserlen sawl diwrnod ymlaen llaw. Ni roddodd unrhyw chwiliad rhyngrwyd na galwadau ffôn unrhyw wybodaeth o gwbl, dim hyd yn oed galwadau uniongyrchol i Gwynfor Coaches sydd yn ôl pob golwg bellach â'r fasnachfraint ar gyfer y gwasanaeth. Ar y diwrnod aethon ni yn y car i Ben y Pass, dim ond i gael gwybod (a) nad oedd lle parcio (ddim yn syndod) a (b) doedd dim gwasanaeth bws o gwbl y diwrnod hwnnw (mwy o syndod). Gan fod yn rhaid i hwn fod yn un o'r diwrnodau galw prysuraf yn y flwyddyn (gweler fy ymateb i'r arolwg o fis Mawrth 2021) roedd absenoldeb gwasanaeth bws cyfan gwbl a'r diffyg gwybodaeth llwyr ynglŷn â pha fath o wasanaeth fyddai ar gael yn fethiant dwbl o ran gweithredwr y rhyddfraint. Dylid amnewid Gwynfor Coaches ac ysgrifennu contract yn y dyfodol sy'n sicrhau uniondeb y gwasanaeth, os yw unrhyw un o'ch ymdrechion i leihau'r defnydd o geir preifat yn mynd i gael unrhyw hygrededd.**

    Rydym yn ymwybodol fod hysbysiadau wedi eu cyhoeddi ar wefannau Gwynfor Coaches, Travel Line Cymru a Chyngor Gwynedd yn nodi nad oes bysiau yn weithredol ar Ddydd Calan. Roedd hysbysiadau ar bob bws ac ar gyfryngau cymdeithasol yn ogystal. Yn ychwanegol, mae gan Gwynfor Coaches wasanaeth ffôn sy'n weithredol bob dydd gan eithrio gwyliau cyhoeddus Dydd Nadolig a Dydd Calan.